SEFYDLU GYRFAOEDD

TAFLEN WYBODAETH

Defnyddiwch y wybodaeth isod i lenwi'r Holiadur Sefydlu Gyrfaoedd, Taflen Waith 4.

GWYBODAETH AM GYRFAOEDD

Mae dau ddewis posibl gennych ynghylch eich dyfodol uniongyrchol ar ôl i chi gwblhau eich cwrs yn Iâl:

a) gallwch ddefnyddio eich cymwysterau i ddilyn cwrs pellach mewn Addysg uwch neu ddychwelyd i Iâl i astudio cwrs uwch mewn addysg bellach,

neu

b) gallwch ddefnyddio'ch cymwysterau i fynd i fyd gwaith.

Beth bynnag yw'ch dewis, bydd yn rhaid i chi wneud dewis cytbwys yn seiliedig ar y wybodaeth a gasglwyd o'r Adran Gyrfaoedd, naill ai mewn cyfweliad gyrfaoedd ffurfiol neu drwy ymchwil bersonol gan ddefnyddio'r cyfleusterau yn **Llyfrgell Gyfeirio Gyrfaoedd** y coleg.

Mae prif Lyfrgell Gyfeirio gyrfaoedd yr Adran Gyrfaoedd wedi ei leoli yn **y Ganolfan Cymorth i Fyfyrwyr ar gampws Parc y Gelli** ac mae darpariaeth fechan **yn y Ganolfan Adnoddau Dysgu ar gampws Ffordd y Bers.**

Mae rhyddid i **holl** fyfyrwyr y coleg, waeth pa gampws maent yn cael eu haddysgu arno, ddefnyddio'r cyfleusterau ar y 2 gampws ac mae'r Adran Gyrfaoedd yn dilyn Polisi Cyfle Cyfartal y coleg.

ADDYSG UWCH

Er mwyn sicrhau lle ar gwrs gradd neu ddyfarniad uwch mewn coleg neu brifysgol, mae'n rhaid i chi gyflawni gofynion mynediad. Gall y rhain amrywio'n eang o sefydliad i sefydliad ac o gwrs i gwrs. Mae canllaw i'r cymwysterau angenrheidiol i'w weld mewn llyfr o'r enw "The Big Official UCAS Guide to University & College Entrance", llyfr o'r enw "Degree Course Offers" neu brosbectws unigol pob sefydliad. Hefyd, gallwch edrych ar wefannau'r sefydliadau ar y rhyngrwyd. Mae'r llyfrau ar gael yn llyfrgelloedd cyfeirio Gyrfaoedd ar y ddau brif gampws. Cedwir prosbectws unigol pob sefydliad yn llyfrgell gyfeirio Gyrfaoedd ar gampws Parc y Gelli.

ADDYSG BELLACH

Os ydych yn dymuno gwella'ch cymwysterau wrth gofrestru ar gwrs pellach yn Iâl, gallwch ddarganfod mwy am y cyrsiau sydd ar gael yn y Ganolfan Cymorth i Fyfyrwyr ar gampws Parc y Gelli neu yn nerbynfa campws Ffordd y Bers.

GWAITH

Gall Staff Gyrfaoedd y coleg neu gynrychiolydd o Yrfa Cymru helpu myfyrwyr sy'n dymuno chwilio am waith ar ôl gorffen eu cwrs yn Iâl drwy eu cynorthwyo i ysgrifennu llythyron cais/curriculum vitae a chyda thechnegau cyfweliad**.** Mae llyfrau ar gael ar yrfaoedd penodol ynghyd â thaflenni gwybodaeth y gallwch eu llungopïo. Mae'r llyfrgell wedi ei threfnu yn ôl Mynegai Rhifnodau Llyfrgell Gyrfaoedd *(CLCI*) ac mae cod penodol gan bob gyrfa. Dangosir y rhain ar boster mawr yn y Llyfrgelloedd Cyfeirio Gyrfaoedd.

Gallwch ddefnyddio gwefan Pathfinder Live (www.pathfinderlive.com) am weithgareddau'n ymwneud â gyrfaoedd gan gynnwys: Paru Swyddi - Defnyddiwch eich diddordebau i ddarganfod y gwaith/gyrfa sy'n addas i chi. Gwybodaeth am Waith - Gwybodaeth fanwl ar dros 2000 o swyddi neu yrfaoedd. Gwybodaeth AU -

Parwch eich diddordebau â holl gyrsiau gradd gyntaf yn y DU. Defnyddiwch y cod canlynol i fynd at y safle hwn: f9992ad06e1b.

Gall Swyddogion Gyrfaoedd Gyrfa Cymru eich helpu gyda gwybodaeth ynghylch swyddi gwag. Hysbysebir swyddi gwag ar hysbysfyrddau gyrfaoedd ac ar safle mewnrwyd Gyrfaoedd.

SUT MAE TREFNU APWYNTIAD

Gallwch drefnu apwyntiad gyda staff Gyrfaoedd y coleg neu gynrychiolydd Gyrfa Cymru fel a ganlyn:

a) drwy gysylltu â Jill Jones, cynorthwyydd gweinyddol gyrfaoedd ar gampws Parc y Gelli

b) drwy gysylltu â staff y Ganolfan Adnoddau Dysgu ar gampws Ffordd y Bers.

c) drwy e-bostio jlj@yale-wrexham.ac.uk

PROFIAD GWAITH

Mae gan bob myfyriwr llawn amser yr hawl i bythefnos o brofiad gwaith. Bydd rhai tiwtoriaid cwrs yn eich cynorthwyo i drefnu hyn. Fel arall, gall y coleg eich cynorthwyo i ddarganfod lleoliad addas ac mi ddylech gysylltu ag aelod o staff yn yr Adran Gyrfaoedd, Canolfan Cymorth i Fyfyrwyr ar gampws Parc y Gelli (est. 2135).

NEWID CWRS/GADAEL Y COLEG CYN GORFFEN CWRS

Mae'n hanfodol bod pob myfyriwr sy'n ystyried newid cwrs neu adael y coleg cyn gorffen eu cwrs yn cael cyfweliad gyrfaoedd cyn gwneud hynny. Mae'n rhaid i fyfyrwyr lenwi ffurflen 'newid cwrs/gadael yn gynnar' (sydd ar gael yn y Ganolfan

Cymorth i Fyfyrwyr) ac mae'n rhaid i'w tiwtoriaid ei lofnodi cyn ei ddychwelyd i'r dderbynfa.

Dylai'r myfyrwyr nodi'r rhesymau am adael y coleg ar y ffurflen ynghyd â dweud beth fyddant yn ei wneud ar ôl gadael y coleg.